CYFRES C5

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
Ruth 1: 1-14

ADNOD ALLWEDDOL
Barnwyr 21:25

Astudiaeth 1 Ruth – Teulu ymhell oddi wrth Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Deuteronomium 30: 15-20 Diarhebion 14: 12 Eseia 53: 6

Y blynyddoedd treisgar a ddarlunnir yn llyfr y Barnwyr yw'r cefndir i stori heddychlon Ruth. Roedd hi'n argyfwng yng ngwlad Israel.

C **Beth oedd yr argyfwng hwnnw?**

1

Mae rhan olaf yr Adnod Allweddol yn esbonio'r rheswm dros yr argyfwng hwnnw.

C **Beth mae'r adnod yn ei ddweud?**

1

Roedden nhw'n byw yn y wlad a addawyd iddynt gan Dduw, flynyddoedd lawer cyn hynny, pan oeddent yn dal yn gaethweision yn yr Aifft.

C **Sut wlad fyddai hon yn ôl Duw? Edrychwch ar Exodus 3: 8.**

2

Nid felly roedd hi bellach, mae'n ymddangos! Pam? Roedd y genedl gyfan wedi troi eu cefnau ar Dduw. Nawr roedd Duw yn troi Ei gefn arnynt hwy ac yn atal Ei fendith. Tanlinellir pwysigrwydd yr Adnod Allweddol gan y ffaith fod yr adnod hon i'w gweld hefyd yn Barnwyr 17:6. Mae'n amlwg fod Israel, ers blynyddoedd, wedi dilyn ei llwybr ei hun ac wedi anghofio Duw. Roedd Elimelech a'i deulu yn brwydro byw yn Israel a'r dyfodol yn edrych yn dywyll. Roedd pob pryd bwyd yn brinnach na'r un o'i flaen. Roedd eu ffydd yn sigledig. Gwnaent eu trefniadau heb ofyn am help Duw. Gadawsant eu cartref, eu perthnasau a phob dim oedd yn gyfarwydd iddynt. I ffwrdd â nhw i wlad estron!

GRID GEIRIAU



I LAWR
1. Mudodd y teulu i'r wlad hon.
2. Un wraig o Moab.
3. Un o feibion Elimelech.
4. Mab arall i Elimelech
5. Gwraig Elimelech.

AR DRAWS
6.Gadawodd Elimelech a'i deulu y dref hon yn Jwda.

6

Roedd bywyd i'r teulu hwn yn galed, yn enwedig ar ôl marwolaeth Elimelech! Cyn hir, penderfynodd y ddau fab ei bod yn bryd iddynt briodi. Priododd Mahlon ferch o'r enw Ruth, tra mai Orpa oedd dewis ei frawd. Roedd dynion Iddewig yn torri cyfraith Duw wrth briodi merched estron. Nes ymlaen, trawyd y teulu gan drasiedi arall enbyd.

C **Beth oedd honno?** 1

C **Beth barodd i Naomi ddychwelyd i Jwda?** 1

Naomi, bellach, oedd y penteulu ac roedd yn gyfrifol am eu merched-yng-nghyfraith. Roedd yn ddyletswydd arni i ddod o hyd i wŷr iddynt. Mae hyn yn esbonio adnodau 11-13. Gan nad oedd ganddi feibion eraill, anogodd hwy i ddychwelyd at eu teuluoedd. Roedd Naomi'n hoff iawn o'i merched-yng-nghyfraith. Gwerthfawrogai bopeth roeddent wedi ei wneud drosti hi a'i meibion.

C **Ysgrifennwch ran o adnod sy'n dangos hynny.** 2

Roedd y ddwy weddw hefyd wedi dod yn hoff iawn o'u mam-yng-nghyfraith.

C **Edrychwch ar adnodau 9-14 a rhowch resymau i brofi hyn.** 3

Daeth y ddwy weddw ifanc wyneb yn wyneb â dewis. Er hynny, ni ddaeth y ddwy i'r un penderfyniad. Rydym ninnau hefyd yn wynebu nifer o ddewisiadau yn ein bywydau, rhai ohonynt yn bwysicach nag eraill. Y pwysicaf oll, fodd bynnag, yw a ydym yn penderfynu bod yn ddilynwyr Iesu Grist ai peidio. Mae ein penderfyniad yn pennu a fyddwn yn treulio tragwyddoldeb gyda Duw neu beidio. Mae'n amlwg fod Naomi yn gwybod rhywbeth am yr Arglwydd a'i ffyrdd Ef.



C **Nodwch rif yr adnod lle dywed wrth ei merched-yng-nghyfraith:** 3

"Bydded yr Arglwydd yn garedig wrthoch chi ..." Adnod: .....

"Bydd yr Arglwydd yn rhoi gŵr arall i chi." Adnod: .....

"Mae llaw yr Arglwydd yn f'erbyn". Adnod: .....

Yn aml iawn yn ein bywydau, rhaid i ninnau ddewis rhwng mynd ar hyd ffordd Duw neu ddilyn ein llwybr ein hunain. Mae'r stori hon yn sôn wrthym am ffolineb torri'ch cwys eich hun heb geisio arweiniad a chymorth Duw.

Enw _____

DARLLENWCH
Ruth 1: 15-22

ADNOD
ALLWEDDOL
Ruth 1: 16 a 17

Astudiaeth 2 Ruth – Naomi yn troi'n ôl at Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Diarhebion 13: 15 Luc 15: 11-24 1 Ioan 1: 9

Gwnaeth Orpa ei phenderfyniad a ffarweliodd yn ddagreuol â Naomi a Ruth. Trodd a cherddodd ymaith oddi wrthynt, yn ôl i gyfeiriad cartref ei mam. Daw rhan Orpa yn y stori i ben.





Trodd Naomi wedyn at Ruth a rhoddodd un cynnig arall ar ei hannog hithau hefyd i ddychwelyd.

C **Dywedodd fod Orpa wedi mynd yn ôl at ddau beth. Beth oeddent?**

1
2

2

Mae hyn yn dangos fod tynfa teulu a chrefydd yn gryf iawn. Mae'n ein hatgoffa fod grym y diafol hefyd yn gryf iawn a bydd yn gwneud ei orau glas i gadw ei afael ynom. Duw'n unig all ein rhyddhau.
Doedd dim modd perswadio Ruth i newid ei meddwl. Yn yr Adnod Allweddol, mae Ruth yn sôn am 5 peth roedd yn bwriadu eu gwneud.

C **Ysgrifennwch y rhain isod, yn eu trefn gywir.**

1
2
3
4
5

5

Mae Ruth, yn y fan hon, yn datgan ei gwir ffydd yn Nuw, a'i ffyddlondeb i'w mam-yng-nghyfraith.

C **Rhowch ✓ wrth ymyl un o'r 5 ateb sy'n dangos ffydd Ruth.**

1

Dywedodd Ruth mai un peth yn unig allai ei gwahanu oddi wrth Naomi.

C **Beth oedd hwnnw?**

1

Mae bod yn gwbl ffyddlon i'n teulu a'n ffrindiau yn rhywbeth sy'n plesio Duw. Ond, mae ein hymrwymiad a'n hymroddiad i'r Arglwydd Iesu Grist yn bwysicach hyd yn oed na hynny.

Edrychwch ar Luc 5: 27 a 28 am enghraifft o wir ymrwymiad

C **Beth oedd enw'r dyn a benderfynodd ddilyn Iesu?** 2

C **Beth adawodd ar ei ôl?**

Mae'r hyn wnaeth Ruth yn esiampl arall o ymrwymiad, a dylai pob un ohonom geisio'i hefelychu.

C **Pa adnod sy'n dangos fod Naomi'n sylweddoli fod Ruth yn benderfynol o fynd gyda hi?** Adnod 1

O'r diwedd, daeth Naomi a Ruth i Fethlehem. Cyn hir, dechreuodd pobl adnabod Naomi. Doedd hynny ddim yn syndod gan ei bod wedi treulio'r rhan helaeth o'i bywyd yno. Byddai nifer o'i chyn gymdogion a'i pherthnasau yn dal yn fyw.

C **Beth oedd ymateb pobl Bethlehem i Naomi a Ruth?** 1

Er hynny, gofynnodd Naomi iddynt am beidio â'i galw yn Naomi o hynny ymlaen, ond ei galw wrth yr enw Mara. Ystyr yr enw Naomi yw 'hyfryd', 'prydferth' neu 'ddymunol'

C **Pam ddywedodd hi wrthynt am ei galw'n Mara - sy'n golygu 'chwerw'?** 1

C **Chwiliwch am eiriau yn y Darlleniad o'r Beibl er mwyn cwblhau'r brawddegau canlynol.** 6

Esboniodd Naomi ei bod wedi mynd allan yn ..... a bod yr ..... wedi dod â hi nôl yn ..... . Rhoddodd y bai ar Dduw gan ddweud i'r ..... ddod â drwg arni. Cyrhaeddodd y ddwy ym ..... ar .....'r cynhaeaf.



Roedd Naomi, yr un fu'n crwydro, wedi dod yn ei hôl. Roedd ei chamgymeriadau yn codi cywilydd arni a chyfaddefodd mai Duw a'i gosododd yn ôl ar y llwybr cywir a'i harwain adref. Ond gorfu iddi dalu'r pris. Bu'n rhaid i'r Arglwydd ei thywys i gyfnod anoddaf ei bwyd cyn iddi edifarhau a throi'n ôl Ato. Er hynny, roedd caredigrwydd yr Arglwydd yn parhau. Roedd Naomi gartref ac roedd Ruth gyda hi.

Enw _____

DARLLENWCH
Ruth 2: 1-23

ADNOD
ALLWEDDOL
Ruth 2: 20

Astudiaeth 3 Ruth – Gweddwon dan arweiniad Duw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salmau 37: 23-24 Diarhebion 10: 22 Effesiaid 4: 28

Roedd caeau Bethlehem yn gorwedd ar wahanol lefelau, ac felly ni fyddai'r grawn i gyd yn aeddfedu ar yr un pryd. Gallai'r cyfnod cynaeafu bara am amser hir. Byddai hyn o gymorth mawr i Ruth oherwydd roedd hawl gan y tlodion ddilyn y medelwyr a mynd ati i godi unrhyw rawn oedd ar ôl. 'Lloffa' oedd yr enw ar hyn.

C Darllenwch ac ysgrifennwch Lefiticus 23: 22.

2

Deuai'r dynion â'u crymanau'n gyntaf, yna'r merched i rwymo ysgubau, ac yn olaf y lloffwyr, fel Ruth, i gasglu'r hyn oedd yn weddill.



GRID GEIRIAU

AR DRAWS

1. Cynigiodd Boas hwn i Ruth i'w fwyta.

2. Moesymgrymodd Ruth o flaen Boas a chyffyrddodd y rhan hon o'i chorff â'r llawr.

3. Ymatebodd y gweithwyr i gyfarchiad Boas drwy ddweud ".....yr Arglwydd dithau"

4. Yr enw ar y dynion oedd yn casglu'r cynhaeaf.

5. Gadawodd Ruth y perthnasau hyn ar ôl ym Moab (Adnod 11)

6 a 7. Ceir sôn am ddau gynhaeaf. (Adnod 23)

8. Roedd Ruth yn lloffa mewn .... oedd yn eiddo i Boas.



9

C Chwiliwch yn y Grid Geiriau am enw tref enedigol Boas.

1

Cawn ein cyflwyno i Boas yn adnod 1 ac o hynny ymlaen mae ganddo rôl bwysig yn y stori. Bryd hyn, roedd y gwahaniaethau rhwng Boas a Ruth yn fawr iawn. Roedd ganddo ef bopeth. Doedd ganddi hi ddim. Sut y daeth y ddau ynghyd? Dyma'r ateb – roedd Duw wrth y llyw. Roedd Ruth a Naomi yn ymddiried Ynddo Ef ac roedd yr Arglwydd yn eu harwain hwy.

PROFFIL O BOAS
CORFFOROL

Ni wyddom ddim am nodweddion corfforol Boas.

CYMDEITHASOL

C **Beth ydym ni'n ei ddysgu am Boas yn adnod 1?**

1

CYMERIAD

C **Atebwch GWIR neu ANWIR:-**

Ni sylwodd Boas ar Ruth yn y cae. .....

Ni wyddai Boas ddim am Ruth nes iddi siarad ag ef. .....

Dywedodd Boas wrth Ruth am aros yn ei gae. .....

Dywedodd Boas wrth Ruth am yfed yr un dŵr â'i ddynion. .....

Siaradodd Boas yn llym â Ruth. .....

Roedd Boas yn ddyn hael. .....

3

YSBRYDOL

C **Oedd Boas yn credu ac yn ymddiried yn yr Arglwydd Dduw? Rhowch reswm dros eich ateb.**

2

Casglodd Ruth effa o farlys (bron deg cilogram) ar y diwrnod cyntaf hwnnw. Gan gymryd i ystyriaeth yr haidd dros ben a adawyd ar ei chyfer (ad. 15 ac 16), roedd hwn yn ddiwrnod o waith eithriadol o galed. Roedd hi wedi creu argraff ar was Boas yn gynharach gyda'i gwaith dygn, cyson. Gwyddai pam ei bod yno a chymerodd y gweddill yn unig er mwyn iddi allu gweithio'n fwy effeithiol. Ydych chi'n weithiwr caled? Dylem wneud popeth, hyd yn oed y pethau mwyaf di-nod, fel pe baem yn eu gwneud i Dduw. Mae gwaith Ruth yn y cae yn esiampl i Gristnogion. Dylai Cristnogion fod yn barod i wasanaethu eu Meistr, yr Arglwydd Iesu, gyda'u holl galon. Dywed y Beibl:
"Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, gweithiwch â'ch holl galon, fel i'r Arglwydd, ac nid i neb arall .....Gwasanaethwch Grist, eich Meistr chwi." (Colosiaid 3:23+24)

C **Yn yr Adnod Allweddol, beth oedd Naomi'n awyddus i'r Arglwydd ei wneud i Boas? Ticiwch yr ateb cywir.**

1

Ei ladd. ☐ Ei gosbi. ☐ Ei fendithio. ☐

C **Yn yr Adnod Allweddol, beth mae Naomi'n ei ddweud am y berthynas rhwng Boas a Ruth a hi ei hun?**

1

Enw _____

DARLLENWCH
Ruth 3: 1-18 4: 1-17

ADNOD ALLWEDDOL
Ruth 4: 10

Astudiaeth 4 Boas a Ruth yn derbyn bendith Duw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 68: 4-6 1 Corinthiaid 6: 19-20 1 Pedr 1: 18-19

Roedd gan Naomi broblem. Roedd hi'n awyddus i werthu darn o dir oedd yn eiddo iddi, ond roedd yn rhaid i'r prynwr fod yn berthynas a fyddai hefyd yn priodi Ruth, er mwyn i'r tir aros yn y teulu. Gwyddai Naomi fod Boas yn berthynas agos ac y byddai, o bosibl, yn barod i brynu'r tir. Aeth hi ati felly i gynllunio sut y gallai Ruth siarad â Boas ar ei ben ei hun.



C **Tanlinellwch y geiriau cywir yn y paragraff canlynol.**

Roedd DECHRAU / DIWEDD y cynhaeaf haidd a gwenith bron â dod. Y BORE / PRYNHAWN / NOSON honno, byddai Boas ei hun yn gweithio yn ei BABELL / WINWASG / LAWR DYRNU. Roedd Naomi'n gyfarwydd â'r arferion lleol, felly gwyddai y byddai Boas a'i weision yn GWERTHU / GWARCHOD / BWYTA'r grawn y noson honno er mwyn sicrhau na fyddai neb yn dwyn dim ohono. Daeth yn amser i gyflwyno hawliad y teulu gerbron Boas. Dyma'r union gyfle i Ruth!

2

C **Ar ôl ymolchi, beth oedd y ddau beth nesaf roedd yn rhaid i Ruth eu gwneud?**

2

1 _____

2 _____

C **Beth oedd ateb Ruth i gyfarwyddiadau Naomi?**

_____

1

Roedd Ruth wedi dod i werthfawrogi holl rinweddau Boas, felly roedd hi'n ddigon bodlon i gydymffurfio â chynlluniau Naomi. Aeth Ruth ar ei ffordd i'r llawr dyrnu. Nid dyma'r lle i ferch ddibriod fel arfer, felly doedd hi ddim i adael neb ei gweld na'i hadnabod.

C **Dywedwyd wrthi am aros i Boas orffen gwneud rhywbeth. Beth?**

_____

1

Pam y dywedodd Naomi wrth Ruth am dynnu'r dillad oddi ar draed Boas? Fel ffordd effeithiol o'i ddeffro, heb darfu ar neb arall o bosibl, pan fyddai ei draed yn mynd yn oer! Rhaid i ni ddychmygu'r ddau yn sibrwd eu sgwrs, a Ruth, wedi hynny'n diflannu'n dawel oddi yno. Dywedodd Boas wrthi ei fod yn gwybod am berthynas agosach iddynt nag ef ei hun. Roedd rhaid i hwn gael y cyfle cyntaf i brynu'r darn tir ac i briodi Ruth. Yn gynnar fore trannoeth, aeth Boas ymaith ac arhosodd wrth borth y dref lle'r oedd y materion pwysig i gyd yn cael eu penderfynu.

C **Ar bwy y galwodd Boas i fod yn dystion o'r cyfan oedd yn digwydd?**

_____

1

Roedden nhw yno i sicrhau fod yr arferion yn cael eu cadw. Unwaith y byddai Boas yn cwblhau'r cytundeb, ni fyddai modd i neb ei newid. Penderfynodd y perthynas agosaf – ni wyddom ei enw – beidio â phrynu'r tir pan sylweddolodd fod priodi Ruth yn rhan o'r fargen.

C **Beth oedd ei eiriau olaf wrth Boas?** 1

C **Beth wnaeth e wrth ddweud hyn?** 1

C **Beth oedd ei reswm dros wneud hyn?** 1

CHWILAIR

Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau canlynol, ac yna, rhowch gylch o'u hamgylch yn y Chwilair. Maent wedi eu hysgrifennu ymlaen, tuag yn ôl, ar draws, i lawr ac yn groeslinol.

1. Y peth cyntaf a wnaeth Ruth wrth baratoi i fynd i weld Boas .....
2. Tynnodd Ruth y dillad oddi am ..... Boas a gorweddodd yn eu hymyl.
3 a 4. Canmolodd Boas Ruth am beidio â mynd ar ôl y dynion ifanc, boent ..... neu .....
5. Rhoddodd Boas chwe mesur (bron 20 cilogram) o hwn i Ruth i'w gario adref i Naomi.
6. Yn y bore, aeth Boas i'r .....
7. Nifer yr henuriaid (arweinwyr) a alwyd gan Boas. .....
8 a 9. Y ddwy chwaer y cyfeirir atynt yn Ruth 4: 11. ..... a .....

G	C	D	L	A	W	D	L	
F	Y	W	D	H	A	P	E	
E	M	F	S	E	O	G	A	
D	D	O	A	O	O	A	G	H
I	L	E	R	E	L	R	F	
A	C	H	P	O	R	T	H	R
H	I	A	C	H	E	O	E	
R	A	C	H	E	L	Y	Y	G

9

Felly, prynodd Boas holl eiddo Elimelech a'i ddau fab, gan gynnwys Ruth, a fyddai bellach yn wraig iddo. Ac felly, darganfu'r ferch a ddaeth i Fethlehem heb ddim, fod Duw wedi dod â hapusrwydd iddi, y tu hwnt i'w holl ddisgwyliadau. Pan fyddwn yn barod i adael i Dduw gymryd drosodd ein bywydau, bydd Ef bob tro yn ein harwain i fendith, er mai ar ôl cyfnod o galedi ac anawsterau y daw'r fendith honno. Mae stori Ruth yn bwysig oherwydd fe ddaeth y wraig hon yn hen fam-gu neu'n hen nain i frenin enwocaf Israel.



C **Pwy oedd ef?** 1

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH % 01766 819120